**Rheolau mynwent yr Eglwys Newydd, Aberdaron**

1.Ymofynir a’r clerc am hawl claddu neu ganiatad i osod carreg fedd neu roi casged mewn bedd.

2.Nid oes gan y clerc hawl i roi caniatad i le claddu ond yn y rhannau hynny o’r fynwent a benodir gan y Cyngor.

3.Rhaid rhoi dau ddiwrnod o rybudd o gladdedigaeth i’r clerc.

4.Rhaid cyflwyno’r dystysgrif claddu a’r ffurflen claddu i’r clerc ar ddydd yr angladd.

5.Cedwir cynllun o’r fynwent a rhestrir pob claddedigaeth gan y clerc. Y mae rhyddid gan bawb i’w gweld.

6.Rhaid talu’r ffi berthnasol yn unol a’r rhestr taliadau.

7.Personnau wedi eu hawdurdodi yn unig sydd a hawl i agor a chau bedd.

8.Rhaid cael caniatad y clerc ynghyd a thaliad cyn gosod unrhyw garreg fedd. Bydd y tâl yn unol a’r rhestr taliadau.

9.Ni chaniateir i garreg fedd fod dim uwch na 4’ nag yn lletach na 3’.
Ni chaniateir ochrau ‘kerbs’ o amgylch bedd.
Rhaid i garreg goffa ar lecyn claddu llwch fod dim uwch na 2’6 a dim lletach na 2’.
Ni chaniateir planu planhigyn o unrhyw fath ar fedd ac ni chaniateir fâs gael ei rhoi ar y bedd heblaw ar y garreg ei hun.

10.Rhaid i’r person sydd yn gyfrifol am waith y fynwent sicrhau fod y pridd ar ôl agor bedd, ag eithro ychydig i roddi ar y beddau pan maent wedi gostwng, cerrig, defnyddiau adeiladu ac ysbwriel arall yn cael eu clirio o’r fynwent a bod y fynwent yn cael ei gadael yn daclus.

11,Y tywyrch oddi ar y wyneb i gael ei gadw i wneud ymyl gorffenedig ar y bedd.

12.Bydd y Cyngor yn gyfrifol am gyflenwi gorchudd i roddi ar fedd

cyfagos a charreg fedd.

13.Caniateir cadw lle bedd wrth ben, ochr neu droed bedd presennol. mae'r teulu i fod yn gyfrifol am roi llechen gyda'r geiriau 'man cadw' ar y plot. Bydd y tâl yn unol a'r rhestr taliadau.

15.Bydd hawl gan y cyhoedd i ymweld a'r fynwent yn ystod golau dydd. Ni chaniateir cwn. Rhaid i blant fod o dan ofalaeth person cyfrifol.

16.Mae gan teulu'r sawl sydd wedi ei gladdu hawl i dacluso, paentio neu drwsio carreg fedd bresennol yn ddi-dâl ond bydd tâl am ychwanegu geiriau neu enw ar garreg.

17.Cyfrifoldeb y teulu ydi gofalu am fedd ond bydd yr ymgymerwr torri beddau yn codi pridd ar fedd newydd y tro nesaf y bydd yn y fynwent yn dilyn claddedigaeth, fel arwydd o ewyllys da.

18.Ni chaniateir gosod carreg fedd am o leiaf 12 mis yn dilyn claddedigaeth er mwyn sicrhau bod y bedd yn sefydlogi.

*Nodir fod y Cyngor Cymuned yn berchen ac yn gyfrifol am y fynwent. Mae angen caniatad a thâl priodol am unrhyw weithgaredd o fewn y fynwent.*

Adolygwyd yn Chwefror 2017

**Clerc y Cyngor: Iwan Hughes, Derlwyn, Llanbedrog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 7NU.**